**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 30 Hydref 2018**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Datganodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol yn Eitem Rhif 8 ar y Rhaglen: Fframwaith Contract Rhwydwaith TGCh Ysgolion am ei fod yn Llywodraethwr ac yn Rhiant. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2018 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.* |
| **5** | UNED CAFFAEL CYDWEITHREDOL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*<br><br>*(a) ymrwymo i dair blynedd arall o Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Sir y Fflint er mwyn i Gyngor Sir Ddinbych gynnal gwasanaethau caffael cydweithredol a fydd yn weithredol ar draws Sir Ddinbych a Sir y Fflint, a*<br><br>*(b) bod gan Bennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd awdurdod i gymeradwyo ac ymrwymo i ffurf briodol o gytundeb gyda Chyngor Sir y Fflint.* |
| **6** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*<br><br>*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2018/19 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb, a*<br><br>*(b) nodi a chytuno ar y defnydd o arian wrth gefn, tanwariant a ddygwyd ymlaen a rhyddhau arian at raid, er mwyn helpu i liniaru'r pwysau cyllideb cyffredinol sy'n wynebu'r Cyngor.* |

**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 30 Hydref 2018**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| **7** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *Nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **8** | FFRAMWAITH CONTRACT RHWYDWAITH TGCH YSGOLION | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*<br><br>*(a) cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau, a*<br><br>*(b) chytuno i'r fframwaith er mwyn i ysgolion gaffael Gwasanaethau TGCh gan gyflenwyr cymeradwy ac achrededig.* |